Wales
Cymru

# ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON

2022 - 2023

## CYNNWYS

| | |
|---|---|
| **03** | Neges gan y Cadeirydd, Mary Ann Brocklesby |
| **05** | Uchafbwyntiau'r flwyddyn |
| **06** | Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2022 |
| **19** | Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol |
| **20** | Datganiad o Weithgareddau Ariannol |
| **21** | Mantolen |
| **23** | Nodiadau i'r datganiadau ariannol |
| **31** | Datganiad Manwl o Weithgareddau Ariannol |

**Swyddfa Gofrestredig:**
RhCM Cymru
Y Deml Heddwch,
Rhodfa'r Brenin Edward VII,
Caerdydd, Cymru, CF10 3AP

**Rhif ffôn:** 07511 939 235
**Gwefan:** www.wenwales.org.uk

**Rhif Cwmni Cofrestredig**
07891533 (Cymru a Lloegr)

**Rhif Elusen Gofrestredig:**
1145706

## ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2023

Am flwyddyn i RhCM Cymru! Fe wnaethon ni gysylltu â mwy o fenywod nag erioed ledled Cymru – o'r diwedd yn dod â menywod ynghyd ar gyfer digwyddiadau wyneb yn wyneb am y tro cyntaf ers 2020 yn ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, a hynny mewn digwyddiadau rhanbarthol ar hyd a lled Cymru, ac yn ein Noson Salsa gyntaf i godi arian ar gyfer Diwrnod rhyngwladol y Menywod. Roedd ein hymgyrch 5050Amrywiol arobryn, ynghyd â'n gwaith dylanwadu di-ildio wedi helpu i arwain at ymrwymiad i gwotâu rhywedd gan y Senedd – moment hanesyddol ar gyfer cynrychiolaeth yng Nghymru. Ac wrth i ni hyrwyddo menywod trwy'r rhaglen Pŵer Cyfartal Llais Cyfartal, rydym wedi eu gweld yn cael eu penodi i fyrddau cyhoeddus, yn dod yn ymddiriedolwyr ac yn gynghorwyr lleol, ac yn cyflawni cymaint mwy mewn bywyd cyhoeddus a gwleidyddol.

Trwy hyn oll, mae ein rhwydwaith o aelodau a'r partneriaethau yn parhau i fod yn hanfodol – ni allem fod wedi dod yn un o'r lleisiau arweiniol dros gydraddoldeb rhwng y rhywiau yng Nghymru heboch chi i gyd. Eleni, mae ein haelodaeth sefydliadol wedi tyfu 10%, a chyfanswm ein clymblaid wedi tyfu 6%. Mae'r adborth gan yr aelodau yn amlygu gwerth y rhwydwaith amrywiol hwn, sy'n tyfu, o ran dod â menywod ledled Cymru ynghyd a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am ddatblygiadau polisi a hawliau menywod, a hyn oll yn golygu eu bod yn teimlo'n fwy galluog i ymgyrchu a dylanwadu ar y penderfyniadau a wneir.

Mae partneriaethau wedi ffynnu trwy brosiectau megis rhaglen mentora Pŵer Cyfartal Llais Cyfartal a'r ymgyrch 5050Amrywiol – gyda'r ddau brosiect yn ennill gwobrau yng Ngwobrau Amrywiaeth a Chynhwysiant WalesOnline. Mae'r rhaglen mentora a'r ymgyrch yn gweithio ochr yn ochr i helpu i gyflawni ein hamcan strategol i sicrhau arweinyddiaeth amrywiol a chyfartal mewn sefydliadau gwleidyddol yng Nghymru, gyda'r cyntaf yn creu'r biblinell a'r olaf yn dylanwadu ar bolisi i alluogi menywod i gymryd eu lle haeddiannol mewn gwleidyddiaeth neu fywyd cyhoeddus. Er bod yna lawer o waith i'w wneud, yn enwedig i sicrhau cynrychiolaeth deg ar gyfer menywod â nodweddion gwarchodedig, nid oes amheuaeth ein bod yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r dirwedd wleidyddol yng Nghymru, ac mae'r ymrwymiad i ddeddfu dros gwotâu rhywedd yn y Senedd yn brawf o'r effaith hon.

> *Nid oes amheuaeth ein bod yn gwneud gwahaniaeth i'r dirwedd wleidyddol yng Nghymru.*

Ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol y Menywod ym mis Mawrth, daeth ein Noson Salsa gyntaf i godi arian â chefnogwr hen a newydd ynghyd ar gyfer noson o ddawnsio, cysylltu, a bwyd blasus, a hynny er budd gwaith RhCM i sicrhau Cymru sy'n rhydd o wahaniaethu ar sail rhywedd. Yn y cyfnod cyn Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, aethom ati i ddyfnhau ein hymgysylltiad ag ysgolion ledled Cymru trwy gyfrwng ein pecyn cymorth diwygiedig i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o ymgyrchwyr. Diwrnod Rhyngwladol y Menywod hefyd oedd yr adeg berffaith i gyhoeddi digwyddiad enfawr sydd ar y gweill wrth i ni bartneru ag Elect Her i feddiannu'r Senedd y mis Hydref hwn ar gyfer Rydym yn Perthyn Yma.

Rydym yn gyffrous iawn ynghylch y digwyddiad unigryw hwn a fydd yn dod â menywod Cymru ynghyd i gysylltu, cynnull a hyrwyddo eu rôl yn nemocratiaeth Cymru.

Wrth i ni barhau i adeiladu dyfodol cynaliadwy ar gyfer RhCM, hoffem ddiolch i'n codwyr arian am gefnogi ein gwaith. I Sefydliad Rosa, Ymddiriedolaeth Diwygio Joseph Rowntree, Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, Llywodraeth Cymru, Cronfa Cadernid y Trydydd Sector, Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector (WCVA), Sefydliad Waterloo, a Grŵp Benefact, diolch.

*Dod a menywod Cymru at ei gilydd i gysylltu, cynnull a hyrwyddo ei rôl mewn democratiaeth Cymraeg.*

Mae ein tîm o staff ymroddgar, fel arfer, wedi mynd ar drywydd nodau ac amcanion strategol RhCM yn ddi-ildio gan hefyd ymgorffori ein gwerth craidd, sef caredigrwydd. Fe wnaethon ni groesawu dau aelod o staff newydd, gan gynyddu ein tîm bach ond effeithiol i naw. Ar ran y Bwrdd, hoffwn ddiolch iddynt a'u cymeradwyo am eu hymrwymiad cyson a'u gwaith caled diwyd dros ein hachos.

Rydym hefyd yn nodi diwedd cyfnod yn RhCM wrth i ni ffarwelio â'r Cyfarwyddwr, Catherine Fookes. Oddi ar i Catherine ddod yn Gyfarwyddwr yn 2017, mae RhCM wedi mynd o nerth i nerth o dan ei harweinyddiaeth gan dyfu o staff o un i dîm o naw heddiw. Mae hi wedi arwain RhCM i fod y sefydliad dylanwadol sy'n bodoli heddiw, a gwn y bydd ymddiriedolwyr, staff, partneriaid a chefnogwyr RhCM yn gweld ei cholli. Rwy'n siŵr y bydd pawb yn ymuno â mi i ddymuno'n dda iddi wrth iddi fynd ar drywydd ei mentrau nesaf.

Wrth i un cyfnod ddod i ben, mae un arall yn dechrau. Rydym yn falch iawn o groesawu Victoria Vasey i RhCM yn rôl ein Cyfarwyddwr newydd, ac edrychwn ymlaen at weithio gyda hi i symud RhCM yn ei flaen tuag at Gymru lle y mae gan bawb awdurdod a chyfle cyfartal i lywio cymdeithas i weddu i'w bywydau eu hunain.

**Mary Ann Brocklesby**
Cadeirydd

WEN Wales Cymru

# UCHAFBWYNTIAU 2022-2023

## CYSYLLTU

CYNNYDD MEWN AELODAU SEFYDLIADOL

10%

RHWYDWAITH RHYWEDD LAN

8%

DILYNWYR AR Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

LAN 6%

CAFFIS RHCM

DAETH 240 O BOBL

## YMGYRCHU

ENILLYDD DWY WOBR **AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT** WALESONLINE

LLC YN SEFYDLU CRONFA ARGYFWNG **NRPF**

CYNNYDD **O 45% YN** SYLW'R **WASG**

CLYMBLAID **5050AMRYWIOL LAN 114%**

**5050AMRYWIOL** AR RESTR FER SMK AR GYFER Y GLYMBLAID **ORAU**

## DATHLU

MWY NA **100** MYNYCHODD: EIN DIGWYDDIAD CODI ARIAN CYNTAF

PECYN CYMORTH IWD YN CAEL EI DDARPARU I **BOB YSGOL YNG NGHYMRU**

**LLE I NI: DIWRNOD** MENYWOD YN **Y SENEDD**

**DYBLU: NIFER Y MENTOREION PCLLC** SY'N BAROD I SEFYLL FEL **YMGEISWYR GWLEIDYDDOL**

## ADRODDIAD BLYNYDDOL YR YMDDIRIEDOLWYR AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2023

**Ein gweledigaeth yw Cymru sy'n rhydd o wahaniaethu rhwng y rhywiau.**
Cymru lle mae gan yr holl fenywod a dynion awdurdod cydradd i lunio'r gymdeithas a'u bywydau eu hunain. Rydym yn gweithio gyda'n cynghrair fywiog o aelodau sefydliadol ac unigol i drawsnewid y gymdeithas – ni all un sefydliad ar ei ben ei hun gyflawni cydraddoldeb.

## Diben ac Amcanion

**DIBEN**
Bod yn rhwydwaith menywod cynrychioladol i ddylanwadu ar greu polisïau a grymuso menywod i gyflawni statws cyfwerth mewn bywyd corfforaethol a sifil.

**AMCANION**
Mae ein hamcanion yn seiliedig ar yr amcanion yn y Confensiwn ar Wahardd Pob Math o Wahaniaethu yn Erbyn Menywod (CEDAW). Mabwysiadwyd y confensiwn hwn gan Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig ar 18 Rhagfyr 1979. Bydd hefyd yn dibynnu ar y Datganiad Cyffredinol Hawliau Dynol, a fabwysiadwyd gan Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig ar 10 Rhagfyr 1948. Dyma'n hamcanion; er budd y cyhoedd:

1. hyrwyddo cydraddoldeb;
2. hyrwyddo hawliau dynol gan bawb neu drwy unrhyw un o'r ffyrdd canlynol:
   - I monitro camdriniaeth hawliau dynol;
   - II. gwneud yn iawn i ddioddefwyr camdriniaeth hawliau dynol;
   - III. gwella angen ymhlith dioddefwyr camdriniaeth hawliau dynol;
   - IV. ymchwilio i faterion hawliau dynol;
   - V. addysgu'r cyhoedd am hawliau dynol;
   - VI. darparu cyngor technegol i'r llywodraeth ac eraill ar faterion hawliau dynol;
   - VII. cyfrannu at weinyddiaeth gadarn cyfraith hawliau dynol;
   - VIII. cyflwyno sylwadau ar ddeddfwriaeth hawliau dynol arfaethedig;
   - IX. hyrwyddo ymwybyddiaeth o faterion hawliau dynol;
   - X. hyrwyddo cefnogaeth y cyhoedd o hawliau dynol;
   - XI. hyrwyddo parch ar gyfer hawliau dynol ymhlith unigolion a chorfforaethau;
   - XII. eiriolaeth ryngwladol ar gyfer hawliau dynol;
   - XIII. gwahardd troseddau yn erbyn hawliau dynol.

ac, ym mhob achos gan gyfeirio'n benodol at gydraddoldeb menywod a rhywedd yng Nghymru.

## Adolygiad o'r Flwyddyn

**Mae ein gwaith yn canolbwyntio ar dair blaenoriaeth strategol:**
• Datblygu ac ysgogi cynghrair o actifyddion i ymgyrchu gyda ni
• Ymgyrchu dros arweinyddiaeth 5050Amrywiol yn y Senedd ac mewn Llywodraeth Leol
• Cryfhau hawliau menywod trwy ymgyrchu dros ymgorffori egwyddorion CEDAW yng nghyfraith Cymru

Amlinellir isod y gwaith a wnaed gennym eleni wrth weithio tuag at ein tair blaenoriaeth strategol.

### 1. TYFU A CHYNNULL CLYMBLAID O YMGYRCHWYR I YMGYRCHU GYDA NI

Rydym yn parhau i dyfu a chynnull ein clymblaid o aelodau a chefnogwyr ar hyd a lled Cymru, a hynny trwy ymgysylltu â'n haelodau trwy Gaffis RhCM a digwyddiadau eraill, newyddlenni rheolaidd, blogiau, ein cyfryngau cymdeithasol a'n gwefan, a phecyn cymorth Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, a thrwy weithio mewn partneriaeth ar ymgyrchoedd a digwyddiadau. Eleni, am y tro cynaf oddi ar gyfyngiadau symud y pandemig, roeddem yn gallu cynnal digwyddiadau wyneb yn wyneb unwaith eto. Cynhaliwyd digwyddiadau rhanbarthol yn rhan o'r ymgyrch 5050Amrywiol a'r prosiect mentora PCLlC, a hynny ym Mangor, Caerfyrddin ac Abertawe, a bu i ni hefyd gynnal Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol hybrid am y tro cyntaf. Roedd hyn wedi galluogi pobl i ddod ynghyd wyneb yn wyneb, yn ogystal â chynnal hygyrchedd ar gyfer y rheiny a ymunodd ar-lein.

*Rydym yn parhau i rannu diweddariadau polisi wythnosol gan gynnwys gwybodaeth ynglŷn â beth sydd yn digwydd yn y Senedd o gwmpas cydraddoldeb rhywedd a hawliau menywod.*

#### 1.1. Twf yn ein clymblaid

• Cynyddodd nifer yr aelodau unigol 4%
• Cynyddodd cynulleidfa ein cyfryngau cymdeithasol 6%
• Cynyddodd nifer yr aelodau sefydliadol 10%
• Cyfanswm y twf yn y glymblaid yn ystod y flwyddyn: 6%

#### 1.2. Gwaith polisi yn cefnogi'r glymblaid

Trwy'r Rhwydwaith Rhywedd, ein fforwm polisïau croestoriadol, rydym yn parhau i rannu diweddariadau wythnosol ar bolisïau, gan gynnwys gwybodaeth am yr hyn sy'n digwydd yn y Senedd mewn perthynas â chydraddoldeb rhwng y rhywiau a hawliau menywod; buom hefyd yn ymgynghori â'r grŵp yn rheolaidd ac yn cydweithredu ar yr ymatebion i ymgyngoriadau ar bolisi. Cefnogir y Rhwydwaith Rhywedd trwy ein cronfa Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector. Mae'n cynnwys 80 o unigolion o 41 o sefydliadau, yn ogystal ag ymgyrchwyr ac academyddion, a thyfodd y rhwydwaith eleni gyda chynnydd o 8% yn yr aelodaeth oddi ar 31 Mawrth 2022.

Am ei fod yn fforwm allweddol ar gyfer datblygu safbwyntiau polisi a chydlynu gwaith dylanwadu, mae'r Rhwydwaith Rhywedd yn parhau i fod yn ganolog i'n gwaith, ac rydym yn ddiolchgar am ymgysylltiad parhaus ei aelodau. Trafodwyd effaith costau byw cynyddol ar fenywod yng Nghymru, yn enwedig ar y rheiny sy'n profi gwahaniaethu croestoriadol, ac aethom ati i ysgrifennu at Weinidogion perthnasol gan nodi

argymhellion y Rhwydwaith. Bu i'r aelodau hefyd lunio cynnwys ac argymhellion trydedd fersiwn ein Cerdyn Sgorio Ffeministaidd yn sylweddol; adroddiad yw hwn a gyhoeddir yn rheolaidd mewn cydweithrediad ag Oxfam Cymru i olrhain camau gweithredu Llywodraeth Cymru mewn perthynas â symud hawliau menywod a chydraddoldeb rhwng y rhywiau yn eu blaen.

Yn seiliedig ar ddirnadaeth ein hymchwil polisi ni ac ymchwil polisi'r aelodau, aethom ati i ymateb i ymgyngoriadau'r Senedd a Llywodraeth Cymru ar ystod o bynciau, yn cynnwys pwysau costau byw, pontio teg i sero net, diwygio etholiadol, a chyllideb Llywodraeth Cymru, yn ogystal ag i'r Comisiwn Annibynnol ar ddyfodol cyfansoddiadol Cymru.

Fel ysgrifenyddiaeth, rydym yn parhau i gefnogi'r cadeirydd Siân Gwenllian AS o ran cydlynu'r Grŵp Trawsbleidiol ar Fenywod. Yn dilyn ffocws cychwynnol ar gynrychiolaeth amrywiol a chyfartal, roedd gwaith y grŵp eleni yn archwilio nifer o gyfleoedd allweddol i symud cydraddoldeb rhwng y rhywiau yn ei flaen yng Nghymru, gan gynnwys adferiad dan arweiniad gofal, diwygio cyfansoddiadol, cyllidebu ar sail rhywedd, y system gyfiawnder ac, ar y cyd â'r Grŵp Trawsbleidiol ar Drais yn Erbyn Menywod a Phlant, cefnogi goroeswyr sydd heb unrhyw hawl i arian cyhoeddus. Rydym yn eithriadol o ddiolchgar am gefnogaeth ac arweinyddiaeth y cadeirydd ac am y lefel gyson uchel o ymgysylltiad ymhlith ASau ac aelodau cymdeithas dinesig y Grŵp.

Fel arfer, cysylltwyd y trafodaethau hyn â gwaith ehangach RhCM a'n partneriaid er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni newid parhaol lle y mae fwyaf pwysig. Er enghraifft, dilynwyd cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar oroeswyr sydd heb unrhyw hawl i arian cyhoeddus gan Gaffi RhCM ar yr un pwnc. Yn y Caffi hwn, ymrwymodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol i sefydlu cronfa argyfwng, sy'n gyflawniad pwysig ar gyfer rhai o'r menywod mwyaf difreintiedig yng Nghymru, ac yn rhywbeth y mae RhCM a'n partneriaid wedi bod yn galw amdano ers amser maith. Y gallu i gydweithredu mewn modd strategol ar wahanol feysydd polisi yw'r hyn sy'n gwneud RhCM yn unigryw, ac mae'n darparu buddion mesuradwy i fenywod yng Nghymru.

### 1.3. Hyrwyddo menywod ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod

Eleni, aethom ati i ddiweddaru ein pecyn cymorth ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol y a'i ddarparu i ysgolion a grwpiau ieuenctid, gan weithredu'r adborth a gafwyd ar ein pecynnau cymorth cyntaf yn 2021 a 2022. Fe wnaethon ni greu adnodd gwerthfawr yn llawn gweithgareddau a dysgu ar gydraddoldeb rhwng y rhywiau a hawliau menywod, a hynny i'n helpu i weithio tuag at ein hamcanion o estyn allan i'r genhedlaeth nesaf o ymgyrchwyr ifanc.

Cafodd y pecyn cymorth ei gynhyrchu'n wreiddiol ar y cyd â grŵp o arbenigwyr ar addysg gynradd ac uwchradd. Aeth y grŵp ati i graffu ar y syniadau ar gyfer y pecyn cymorth, awgrymu dulliau gweithredu, a chynghori ar y cynnwys. Rydym yn ddiolchgar i'r ysgolion a hefyd i Griffin Books a Chyngor Llyfrau Cymru, a awgrymodd y rhestrau darllen.

Aethom ati i dreialu'r pecyn cymorth mewn ysgol gynradd yng Nghaerdydd ac mewn ysgol uwchradd yn y Rhyl, a chafwyd adborth gwych gan y disgyblion a'r athrawon. Gellir gweld y pecyn cymorth ar waith mewn fideo hyrwyddo a grëwyd o'r ymweliadau hyn. Yna, lansiwyd pecyn cymorth diwygiedig 2023 yn gyhoeddus ym mis Ionawr, ac fe'i dosbarthwyd yn uniongyrchol i bob ysgol yng Nghymru ac i nifer o gymdeithasau grwpiau ieuenctid. Dosbarthwyd y pecyn cymorth hefyd trwy wefan Hwb Llywodraeth Cymru, ac mae ar gael ar ein gwefan i'w lawrlwytho.

### 1.4. Sylw yn y wasg

Eleni, cawsom fwy o sylw gan y wasg nag erioed o'r blaen. Ymddangosodd aelodau o'r tîm ar y teledu ar BBC Wales Politics, BBC Wales Today, a Newyddion S4C, ac ar y radio ar BBC Radio Wales a BBC Radio Cymru sawl gwaith. Ymddangosodd RhCM mewn print neu ar-lein yn y Western Mail, WalesOnline, Newyddion y BBC ar-lein, BBC Cymru Fyw, Golwg360, Nation.Cymru, The Big Issue, IWA Agenda a The I. Sicrhawyd rhagor o sylw mewn nifer o gyhoeddiadau newyddion rhanbarthol, gan gynnwys, y Rhyl Journal a'r South Wales Argus, ac mewn cyhoeddiadau ar-lein eraill megis Business Live. Ein prif ffocws yn y cyfryngau oedd 1) ein gwaith ar arweinyddiaeth amrywiol a chyfartal, gan gynnwys ymgyrchu dros gwotâu, a 2) gofalu, yn arbennig ein gofynion o ran polisi gofal plant. Roedd y pynciau eraill a gwmpaswyd yn cynnwys prinder HRT, rhannu swyddi, ein galwad am Gomisiynydd Menywod yn y Cerdyn Sgorio Ffeministaidd, honiadau o rywiaeth a homoffobia yn Undeb Rygbi Cymru, hawliau erthyliad, a mwy.

**240**
**Fe wnaeth 240 o bobl mynychu ein Caffis RhCM**

### 1.5. Caffi RhCM

Yn ystod y flwyddyn, aethom ati i adeiladu ar lwyddiant ein Caffis RhCM ar-lein i gysylltu ein haelodau, clywed am brofiadau bywyd menywod, a chasglu syniadau ac argymhellion ar gyfer polisïau gan arbenigwyr ar ein panel. Am y tro cyntaf, cynhaliwyd Caffi RhCM hybrid yn rhan o'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn y Deml Heddwch yng Nghaerdydd; roedd hwn yn gyfle i ddod â phobl ynghyd wyneb yn wyneb, yn ogystal â sicrhau bod y drafodaeth yn hygyrch i bawb trwy ffrwd ar-lein.

Roeddem wedi dysgu am amrywiaeth o bynciau gan ein panelwyr anhygoel, gan gynnwys amrywiaeth a chynhwysiant yn y celfyddydau, menywod a merched Wcrainaidd yng Nghymru, y Fargen Newydd Werdd Ffeministaidd, a ffoaduriaid a cheiswyr lloches benywaidd yng Nghymru. Roeddem hefyd wedi cynnal llwyfannau etholiad lleol ac wedi lansio'r ymgyrch Gwneud Gofal yn Deg newydd mewn Caffi RhCM. Trwy weithio mewn partneriaeth â sefydliadau megis Rhwydwaith Amgylcheddol y Menywod, Fio, House of Deviant, a BAWSO, roeddem wedi llwyddo i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd.

Rydym yn cyhoeddi recordiadau o'r Caffis ac yna'n mynd ar drywydd gweinidogion perthnasol y llywodraeth mewn perthynas ag argymhellion polisi fel bo'r Caffis yn arwain at newid gwirioneddol – e.e. yr ymrwymiad a wnaed gan y Dirprwy Weinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol i sefydlu cronfa argyfwng ar gyfer y rheiny sydd heb unrhyw hawl i arian cyhoeddus. Mewn Caffi arall, cafodd menywod a merched Wcrainaidd gyfle i fynegi eu pryderon a'u problemau yn uniongyrchol i'r Dirprwy Weinidog a'i thîm er mwyn iddynt weithredu arnynt.

Daeth cyfanswm o 240 o bobl i'r Caffis RhCM eleni. Mae recordiadau ar gael ar YouTube ar gyfer y rheiny nad oedd yn gallu bod yno'n fyw. Roedd 97% o'r rhai a lenwodd ein harolwg adborth yn teimlo'n fwy grymus i ddweud eu dweud ac yn fwy gwybodus ynghylch hawliau menywod o ganlyniad i fod yn bresennol, ac roedd 95% yn teimlo'n fwy abl i ddylanwadu.

## 2. 5050AMRYWIOL: ARWEINYDDIAETH AMRYWIOL A CHYFARTAL YN Y SENEDD AC MEWN LLYWODRAETH LEOL:

### 2.1. Ymgyrchu dros Newid

Bu i ni barhau i ymgyrchu dros arweinyddiaeth gyfartal ledled sefydliadau gwleidyddol Cymru gyda dealltwriaeth croestoriadol o'r rhwystrau sy'n wynebu menywod gwahanol. Eleni, mae'r ymgyrch 5050Amrywiol wedi symud i Gam Dau, gyda'r nod yn y pen draw o sicrhau seddi cyfartal a chynrychiolaeth amrywiol yng Nghymru yn y Senedd ac mewn Llywodraeth Leol, gan adlewyrchu poblogaeth y wlad. Rydym am gynyddu amrywiaeth menywod mewn bywyd gwleidyddol – fel ein bod yn gweld rhagor o fenywod BAME, menywod LHDTC+, menywod anabl, a menywod â nodweddion gwarchodedig eraill mewn gwleidyddiaeth yng Nghymru.

Trwy adeiladu ar lwyddiant hanesyddol Cam Un ymgyrch 5050Amrywiol, rydym 'nawr am sicrhau bod ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gwotâu rhywedd sy'n rhwymo mewn cyfraith, a sicrhawyd yng Ngham Un, yn cael ei wireddu. Er bod Llywodraeth Cymru wedi cytuno i'r cwotâu, rhaid i ni 'nawr sicrhau bod yr ymrwymiad hwn yn cael ei roi ar waith yn y ddeddfwriaeth sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd.

**Felly, tri nod Cam Dau Ymgyrch 5050Amrywiol yw:**

a. Sicrhau bod deddfwriaeth ddiwygiedig ddrafft y Senedd yn cynnwys y cwotâu rhywedd a addawyd ac sy'n rhwymo mewn cyfraith.
b. Cynnig mesurau ar amrywiaeth ymgeiswyr i bleidiau gwleidyddol a Llywodraeth Cymru.
c. Meithrin cefnogaeth i'r ymgyrch ar lawr gwlad trwy gynnal cyfres o bedwar cyfarfod rhanbarthol.

**Wrth fynd ar drywydd y nodau hyn, byddwn yn cynnal ymgyrch undydd 'Rydym yn Perthyn Yma – diwrnod Menywod yn Meddiannu'r Senedd'** gan ddwyn menywod Cymru ynghyd i gysylltu, cynnull a hyrwyddo eu rôl yn nemocratiaeth Cymru i annog rhagor o fenywod i sefyll yn 2026. Rydym yn ddiolchgar ein bod wedi cael cyllid gan Lywodraeth Cymru a chymorth gan y Llywydd ar gyfer y diwrnod mawr hwn ar 21 Hydref 2023.

Mae'r ymgyrch wedi cynnal dau gyfarfod rhanbarthol yn Abertawe a Bangor, gan ddwyn ynghyd fenywod amrywiol i adeiladu cymunedau cryfach a sicrhau eu bod yn cymryd rhan yn yr ymgyrch. Mae'r glymblaid sy'n cefnogi'r ymgyrch wedi tyfu o 21 o sefydliadau partner i 45.

Fe wnaethon ni ymweld â Choleg Dewi Sant yng Nghaerdydd i godi mwy o ymwybyddiaeth o'r ymgyrch a sicrhau bod pobl ifanc yn cymryd rhan, a bu i ni hefyd gysylltu â'r Senedd Ieuenctid eleni.

Mae clymblaid yr ymgyrch hefyd yn cysylltu â phartneriaid i drafod a llunio strategaethau amrywiaeth ymarferol i'w rhannu â'r pleidiau gwleidyddol er mwyn gwella amrywiaeth mewn pleidiau gwleidyddol ac wrth ddethol ymgeiswyr. Rydym wedi anfon llythyrau at arweinwyr y pleidiau gwleidyddol i rannu eu cynlluniau amrywiaeth a'n hymrwymiad i'w cefnogi i sicrhau bod eu pleidiau'n fwy amrywiol. Byddwn yn parhau i ymgysylltu ag ASau o bob plaid, yn ogystal ag â Chynghorau Sir mewn perthynas â gorfodi mesurau amrywiaeth cadarn wrth ddethol ymgeiswyr.

*Yn parhau i rymuso a thrawsnewid bywydau ein mentoreion.*

**Diolch i'r pwysau cyfunol gan ein clymblaid o aelodau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:**

- Roedd yr ymgyrch 5050Amrywiol wedi ennill yng Ngwobrau Amrywiaeth a Chynhwysiant ar-lein Cymru, a hynny yn y categori Hyrwyddwr/Ymgyrch y Flwyddyn ar gyfer Cydraddoldeb Rhwng y Rhywiau.
- Cafodd yr ymgyrch 5050Amrywiol ei gosod ar restr fer Sefydliad Sheila McKechnie (SMK) ar gyfer y Glymblaid Orau, a daethom yn ail yn y categori hwnnw.
- Enillodd Rheolwr ein Hymgyrch 5050Amrywiol y categori arweinyddiaeth a rheolaeth yn y Gwobrau EMWWA.
- Cymeradwywyd Cyllid JRRT ar gyfer ail gam yr ymgyrch.
- Roedd y cais am Gyllid Rosa yn llwyddiannus o ran cefnogi'r ymgyrch.

### 2.2. Rhaglen Mentora Pŵer Cyfartal Llais Cyfartal

Yn ystod y flwyddyn hon, sef ail flwyddyn y Rhaglen, bu'r ffocws ar adeiladu ar lwyddiant y flwyddyn gyntaf, sef parhau i rymuso a thrawsnewid bywydau ein Mentoreion. Mae yna ormod o alw am y rhaglen o hyd, gyda mwy o bobl yn ymgeisio nag y mae yna leoedd ar y rhaglen. Dengys hyn fod yr angen am y rhaglen yn dal i fod yn gryf iawn, a hynny er ein bod yn ail flwyddyn PCLlC.

Mae'r rhaglen yn cynnal arolwg llinell sylfaen ac yna'n gofyn yr un cwestiwn ar ddiwedd y cynllun i weld sut y mae'r mentoreion wedi newid a beth y maent wedi'i ddysgu. Dengys y canlyniadau fod y mentoreion wedi datblygu ym mhob maes.

**Mae'r uchafbwyntiau'n cynnwys:**

- Byddai 79% o'r mentoreion yn argymell y rhaglen i eraill
- Mae nifer y rheiny sy'n cytuno'n gryf neu'n cytuno eu bod yn deall gwleidyddiaeth datganoli wedi cynyddu o 51% ar ddechrau'r rhaglen i 89% ar y diwedd
- Mae'r nifer a fyddai'n barod i sefyll fel ymgeisydd gwleidyddol wedi mwy na dyblu o 16% ar ddechrau'r rhaglen i 38% ar ddiwedd y rhaglen
- Mae nifer y mentoreion sydd â diddordeb mewn bod yn ymddiriedolwr ar fwrdd wedi cynyddu o 44% ar ddechrau'r rhaglen i 95% ar y diwedd
- Cafwyd un o'r meysydd cynnydd mwyaf mewn perthynas â'r cwestiwn: "Pe byddai gorsaf radio yn fy ffonio heddiw, byddwn yn teimlo'n hyderus ynghylch cymryd rhan mewn dadl

fyw yfory." Ar ddechrau'r rhaglen dywedodd 16% o'r mentoreion eu bod yn cytuno'n gryf neu'n cytuno, ac erbyn diwedd y rhaglen roedd y ffigur hwn wedi cynyddu i 76%.

- Cafwyd cynnydd tebyg ar gyfer y cwestiwn: "Rwy'n gweld fy hun yn arweinydd". Mae hyn wedi cynyddu o 20% i 81% o'r mentoreion, sef cynnydd o bedair gwaith mewn hyder ar gyfer y mentoreion.
- Mae "Byddwn yn teimlo'n hyderus i fod yn siaradwr arweiniol mewn dadl, panel neu gynhadledd" wedi cynyddu o 26% i 84%, gan unwaith eto amlygu cynnydd mawr mewn hyder ar gyfer y mentoreion
- Mae rhwydweithiau pobl hefyd wedi cynyddu'n sylweddol, fel y mae'r ateb i'r cwestiwn hwn yn tystio. "Rwy'n adnabod pobl ar fyrddau cyhoeddus neu mewn bywyd gwleidyddol yr wyf yn teimlo y gallaf gysylltu â nhw'n bersonol i gael gwybodaeth neu gyngor." Roedd hyn wedi cynyddu  o 21% i 76%.

Trwy gydol y flwyddyn, cynhaliwyd sesiynau hyfforddi ar, er enghraifft, croestoriadedd, siarad cyhoeddus, y cyfryngau, y modd y mae'r Senedd yn gweithio, a hefyd nifer o ymweliadau personol, a oedd yn cynnwys taith i'r Senedd a thaith i Dŷ'r Cyffredin yn San Steffan.

**Isod gwelir sylwadau gan fentoreion ynghylch yr effaith y mae'r rhaglen wedi'i chael arnynt.**

"Ymunais â PCLlC yn ystod adeg anodd iawn yn fy mywyd. Roedd cael mynediad at seddi grym ar gyfer pobl wedi'u hymyleiddio wir yn apelio ataf.

*Gall newid fod yn fach, ond unwaith maent yn dechrau, ni fydd yn stopio.*

Mae'r cymorth a'r anogaeth a gefais trwy fy mentor a PCLlC yn gyffredinol wedi fy helpu trwy fy sefyllfa. Bu'n brofiad cadarnhaol i mi, a'm hanogodd i ailwerthuso fy amgylchiadau a thrafod fy syniadau am fy musnes bach fy hun â'm mentor."

"Trwy'r rhaglen, ymunais â chyfres o sesiynau hyfforddi a meithrin dealltwriaeth ddofn o strwythur a dulliau gweithio sefydliadau cymdeithasol a'r cyngor; ymwelais â BBC Cymru, y Senedd a San Steffan, cwrdd ag Aelodau o'r Senedd ac Aelodau Seneddol, a dweud fy nweud ar ran fy mhobl; cyfathrebais â mentoreion eraill a dechrau adeiladu fy rhwydwaith fy hun yn fy nghartref newydd. Mae'r rhain i gyd yn brofiadau gwerthfawr a gefais o'r rhaglen PCLlC yn unig.

Mae'r rhaglen PCLlC yn gwneud i mi deimlo bod rhywun yn gwrando arnaf ac yn fy mharchu. Mae'n cynnig cynhwysiant, gan gefnogi dulliau grymuso diwylliannol, ac mae'n ein paratoi i sefyll ar ein traed a dweud ein dweud. Mae hyn yn arbennig o bwysig i fudwyr newydd am fod arnom wir angen y math hwn o gymorth er mwyn addasu ac ymgartrefu."

"Bu'r tîm yn anhygoel: yn gefnogol, yn gyfeillgar ac yn cynnwys pawb. Mae wedi mynd yr ail filltir i ddarparu ar gyfer anghenion ac amgylchiadau pawb. Rwyf am ddiolch i bawb sy'n cymryd rhan.

Roeddwn wedi cymryd rhan yn hyn eleni, ac rwyf wedi cwrdd â phobl wych; mae wedi fy helpu i fod yn hyderus wrth symud ymlaen tuag at fy nodau ac i leisio fy marn a'm mynegi fy hun yn well.

Rwyf wir yn argymell y dylai unrhyw un sydd am gamu ymlaen ar gyfer twf personol neu welliant cymdeithasol, ymuno â rhaglen PCLlC. Efallai fod y newid yn fach, ond wedi iddo ddechrau, fydd dim diwedd arno."

Hoffem ddiolch i'n partneriaid gwych, EYST, Anabledd Cymru a Stonewall Cymru am yr holl ymrwymiad ac ymroddiad o ran cydweithredu i gyflawni'r rhaglen, ac yn arbennig i Swyddogion y Prosiect Mentora. Hoffem hefyd ddiolch i'r holl fentoriaid, siaradwyr gwadd a chefnogwyr sydd wedi gwirfoddoli eu hamser, rhannu eu teithiau a'u profiadau, a hyrwyddo'r rhaglen ledled eu rhwydweithiau. Mae'n fraint ac yn anrhydedd cael eich cefnogaeth, ac rydym wrth ein bodd yn cysylltu â chi a pharhau i feithrin rhwydweithiau mor gadarn a phwerus.

## 3. CRYFHAU HAWLIAU MENYWOD TRWY SICRHAU BOD EGWYDDORION CEDAW YN CAEL EU HYMGORFFORI YNG NGHYFRAITH CYMRU

Roeddem yn falch iawn o weld ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddiddymu Pob Math o Wahaniaethu yn Erbyn Menywod (CEDAW) yng nghyfraith Cymru ar ddechrau'r Chweched Senedd. Am amryw o resymau, gan gynnwys cyhoeddiad nifer o filiau gan Lywodraeth y DU, a gafodd effaith fawr ar ddeddfwriaeth ddatganoledig, ni fu'r cynnydd mewn perthynas â'r ymrwymiad hwn mor gyflym ag yr oeddem wedi gobeithio. Ond rydym yn parhau i baratoi'r tir ar gyfer ei ymgorffori trwy ein cynrychiolaeth ar Grŵp Cynghori ar Hawliau Dynol (HRAG) Cymru, Grŵp Trawsbleidiol y Senedd ar Hawliau Dynol, a'r Gweithgor Opsiynau Deddfwriaethol sydd newydd ei ffurfio. Ar adeg pan fo hawliau dynol sylfaenol yn cael eu defnyddio fwyfwy yn degan yn y rhyfeloedd diwylliannol, mae'n hanfodol bod yr ymrwymiad hwn i atgyfnerthu hawliau menywod ar lefel ddatganoledig yn parhau i fod yn uchel ar yr agenda wleidyddol yng Nghymru. Er ein bod yn cydnabod nad yw pwerau datganoledig Cymru ar hyn o bryd yn caniatáu ar gyfer ymgorffori CEDAW yn llawn, bydd mabwysiadu'r egwyddorion yng ngwleidyddiaeth a deddfwriaeth Cymru mewn perthynas â materion datganoledig yn helpu i amddiffyn a chryfhau hawliau menywod a merched yng Nghymru.

Byddwn yn barhau â'n gwaith ar bryder allweddol ynghylch hawliau menywod – diffyg cydnabyddiaeth a gwobrwyo teg am waith gofal, sy'n ffurfio'r rhwydwaith anweledig sy'n cadw ein cymdeithas i redeg. Mae'r ymgyrch, a arweinir gan grŵp llywio sy'n cynnwys Gofalwyr Cymru, Chwarae Teg, Oxfam Cymru, Cyngor Hil Cymru, TUC Cymru, yn ogystal â RhCM, yn unigryw o ran cydnabod bod yr argyfyngau ym maes gofal plant, gofal cymdeithasol a gofal di-dâl hefyd yn gysylltiedig â'r arfer o danbrisio gwaith a gyflawnir yn draddodiadol gan fenywod. Yn dilyn ffurfio ein grŵp llywio, aethom ati i ddatblygu amcanion allweddol ein hymgyrch, ymgysylltu â rhanddeiliaid amrywiol, a pharatoi papur briffio polisi cychwynnol, yn ogystal â lansiad swyddogol Ymgyrch Gwneud Gofal yn Deg ar gyfer haf 2022.

### 3.1. Rhwydweithiau Cenedlaethol a Rhyngwladol

Parhaodd RhCM Cymru i chwarae rhan weithgar yng Nghyd-bwyllgor y DU ar Fenywod (UKJCW) fel ein bod yn parhau i fod â sedd wrth y bwrdd yn dylanwadu ar bolisïau'r Undeb Ewropeaidd ac yn sicrhau ein bod ni yng ngwledydd y DU yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau i ddeddfwriaeth hawliau menywod yn Ewrop.

Y nod yw ein bod yn ymwybodol o unrhyw amddiffyniadau newydd ar gyfer menywod sy'n dod yn gyfraith yn yr UE fel y gallwn ymgyrchu iddynt gael eu cynnwys mewn deddfwriaeth briodol yn y DU a sicrhau na fydd ein hawliau'n cael eu tanseilio.

## 4. RHCM CYMRU CYNALIADWY

Yn 2022, llwyddodd RhCM Cymru i recriwtio Rheolwr Partneriaethau a Chodi Arian gyda chefnogaeth Cronfa Cadernid y Trydydd Sector CGGC. Mae hyn wedi ein galluogi i gynllunio'n strategol a chanolbwyntio ar gynhyrchu incwm ar gyfer prosiectau amlflwyddyn ac i amrywio ein cronfeydd anghyfyngedig i greu RhCM Cymru sy'n fwy cynaliadwy. Trwy gydol y flwyddyn rydym wedi lansio nifer o ymgyrchoedd codi arian gwahanol i annog ymgysylltid â phartneriaid corfforaethol, aelodau a chyllidwyr.

- **Codi Arian yn y Gymuned:** yn rhan o WEN at Ten fe wnaeth gefnogwyr blymio o'r awyr, rhedeg Hanner Marathon Caerdydd, a chwblhau heriau personol i godi arian hanfodol ar gyfer ein gwaith.
- **Cynnig Corfforaethol:** croesawodd Busnes RhCM nifer o aelodau newydd, gan gynnwys Eversheds Sutherland, Pia, a JG HR Solutions
- **Digwyddiad Codi Arian:** roedd ein Noson Salsa ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol y Menywod 2023 yn llwyddiant ysgubol, wrth i ni groesawu dros 100 o unigolion i gefnogi ein gwaith.
- **Ymddiriedolaethau a Grantiau:** mae ein cronfa ddata a'n strategaeth newydd ar gyfer ymddiriedolaethau a grantiau wedi arwain at gynnydd enfawr mewn cyfleoedd a cheisiadau, gan gynnwys Rosa's Voices o'r gronfa Frontline.

Hoffai RhCM Cymru ddiolch i bawb a gymerodd ran yn y gwaith o godi arian ac a gefnogodd ein gwaith yn 2022-23 wrth i ni barhau i weithio tuag at RhCM cadarn a chynaliadwy. Mae ein strategaeth codi arian ddiweddaraf wedi'i chymeradwyo gan y Bwrdd Ymddiriedolwyr, ac mae'n cynnwys ffocws cryf ar gronfeydd anghyfyngedig yn seiliedig ar lwyddiannau a chryfderau'r hyn a ddysgwyd yn ystod y flwyddyn ariannol hon, yn ogystal â thargedau codi arian uchelgeisiol.

# Llywodraethu, Strwythur a Rheolaeth

Mae RhCM Cymru yn gwmni elusennol cyfyngedig trwy warant, a ymgorfforwyd ar 23 Rhagfyr 2011 ac a gofrestrwyd yn elusen ar 1 Chwefror 2012. Cafodd ei sefydlu o dan Femorandwm Cymdeithasu a sefydlodd amcanion a phwerau'r cwmni elusennol, ac fe'i llywodraethir o dan ei Erthyglau Cymdeithasu.
Mae Cyfarwyddwyr y cwmni hefyd yn ymddiriedolwyr yr elusen at ddibenion y gyfraith

elusennau, ac, o dan Erthyglau'r cwmni, fe'u gelwir yn aelodau o'r Bwrdd. Mae Ymddiriedolwyr RhCM yn gwneud yr holl benderfyniadau strategol, ynghyd â'r prif benderfyniadau ariannol a phenderfyniadau ynghylch cyflogaeth staff. Mewn meysydd eraill, caiff y cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau ei ddirprwyo i'r staff.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n datgelu sefyllfa ariannol y cwmni elusennol gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg, ac i'w alluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006.  .

**Rheoli Risgiau**

Mae gan yr ymddiriedolwyr ddyletswydd i nodi ac adolygu'r risgiau sy'n wynebu'r elusen, ac i ofalu bod rheolaethau priodol ar waith i ddarparu sicrwydd rhesymol yn erbyn twyll a gwall.

**Budd y Cyhoedd**

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cadarnhau eu bod wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd yn Adran 4 o Ddeddf Elusennau 2006 i roi sylw dyledus i ganllawiau ar fudd y cyhoedd a gyhoeddir gan y Comisiwn Elusennau. Mae gweithgareddau sylweddol a gyflawnwyd gennym yn ystod y flwyddyn ac sy'n amlygu budd y cyhoedd yn cael eu nodi ar y tudalennau uchod.

**Recriwtio a Phenodi'r Pwyllgor Rheoli**

Mae gan RhCM uchafswm o 10 o ymddiriedolwyr, ac mae'n rhaid i bob un fod yn aelodau a etholwyd i wasanaethu am dair blynedd. Gall yr Ymddiriedolwyr fynd ati unrhyw bryd i gyfethol unrhyw unigolyn sy'n gymwys i gael ei ethol yn Ymddiriedolwr i lenwi bwlch yn eu niferoedd neu yn rôl Ymddiriedolwr ychwanegol. Fodd bynnag, dim ond tan yr etholiad nesaf ar gyfer Ymddiriedolwyr y bydd Ymddiriedolwyr cyfetholedig yn cadw eu swydd, neu tan iddynt gael eu diswyddo gan yr Ymddiriedolwyr (pa un bynnag a fydd yn digwydd gyntaf).

Cynigir hyfforddiant i'n Hymddiriedolwyr naill ai trwy WCVA neu C3SC neu trwy hyfforddiant priodol arall. Mae RhCM hefyd yn cynnal sesiynau cynefino mewnol ac yn cynnig cymorth i Ymddiriedolwyr newydd.

Mae pob aelod o RhCM yn gymwys i fod yn Ymddiriedolwr.

**STAFF**

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfarwyddwr** | Catherine Fookes | O fis Medi 2017 |
| **Arweinydd Cyllid** | Catherine Chatham | O fis Awst 2019 |
| **Arweinydd Cyfathrebu ac Ymgysylltu** | Megan Evans | O fis Gorffennaf 2020 |
| **Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus** | Jessica Laimann | O fis Mehefin 2021 |
| **Swyddog y Prosiect Mentora** | Annmarie Brown | O fis Awst 2021 |
| **Ymgyrchydd 5050Amrywiol** | Evelyn James | O fis Awst 2021 |
| **Rheolwr y Prosiect Mentora** | Joys Njini | O fis Hydref 2021 |
| **Rheolwr Partneriaethau a Chodi Arian** | Shannon Gossage | O fis Ebrill 2022 |

Rydym yn eithriadol o ddiolchgar hefyd am gyfraniad Rebecca Wilson ar gyfer Cymorth Gweinyddol, ynghyd â chyfraniad Rose Widlake, Inioluwa Longe, Nansi Eccott, Joy Matibiri a Sioned Williams, y bu i bob un ohonynt gefnogi ein gwaith ar Bolisi a Chyfathrebu eleni.

**YMDDIRIEDOLWYR CYFREDOL**

| Enw a Rôl | Dyddiad ethol ar gyfer tymor tair blynedd |
|---|---|
| Mary Ann Brocklesby (Cadeirydd) | Tachwedd 2021 |
| Rhian Davies (Is-gadeirydd) | Rhagfyr 2017, ail-etholwyd yn Nhachwedd 2020 |
| Ruth Fowler | Ebrill 2019 |
| Tania Silva | Tachwedd 2020 |
| Wanjiku Mbugua | Tachwedd 2020 |
| Lowri Walters | Tachwedd 2020 |
| Suzy Davies | Tachwedd 2021 |
| Rahila Hamid | Tachwedd 2021 |
| Jennifer Ramsay | Tachwedd 2021 |

Roeddem yn falch o gael budd eleni o ddau Ymddiriedolwr o'r rhaglen Step to Non Exec a gynhelir gan Chwarae Teg, sef Zoe Grainger a Beth Edwards.

Rydym yn eithriadol o ddiolchgar i'n hymddiriedolwyr blaenorol, Alison Williams (Trysorydd), Ruth Fowler, Wanjiku Mbugua a Lowri Walters, a'n gadawodd yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Hydref 2022. Roedd pob un ohonynt wedi chwarae rhan enfawr yn natblygiad RhCM, a diolch yn arbennig i Alison Williams a helpodd i gryfhau ein hadroddiadau ariannol a Ruth Fowler a'n cefnogodd â'i harbenigedd ym maes adnoddau dynol.

Eleni, yn ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Tachwedd, byddwn yn drist iawn i ffarwelio â'n His-gadeirydd, Rhian Davies, sydd wedi bod gyda ni ers chwe blynedd ac wedi cefnogi RhCM mewn sawl ffordd, gan gynnwys gwella ein dealltwriaeth o fodel cymdeithasol anabledd. Diolch yn fawr iawn i Rhian. Bydd Tania Silva hefyd yn ein gadael oherwydd y newid yn ei swydd, ac rydym hefyd yn diolch yn fawr iawn iddi hi am ei hamser a'i hymroddiad.

## ADOLYGIAD ARIANNOL

### Prif Ffynonellau Ariannu

Roedd cyfanswm y cronfeydd a gafodd RhCM ar gyfer y flwyddyn yn £353,383 (sy'n cynnwys cronfeydd anghyfyngedig, £10,414;  cronfeydd cyfyngedig, £342,969).
Daw prif gronfeydd RhCM o Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant Llywodraeth Cymru gwerth £120,000 (2022: £120,105).

Mae amseriad y broses o grisialu incwm cyllido at ddibenion adrodd ar gyfrifon y tu hwnt i'n rheolaeth, ac mae'n ein hatal rhag cyflwyno cromlin lefn o incwm a gwariant cysylltiedig ar ddiwedd y flwyddyn. Er nad yw'n anghyffredin i wariant cysylltiedig ddisgyn

i ddau gyfnod adrodd, roedd hyn yn arbennig o amlwg rhwng 2021-22 a 2022-23. Gofynnodd yr Ymddiriedolwyr am sicrwydd penodol ynghylch hyn, a dywedwyd wrthynt fod amseriad grant Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn berthnasol, a bod yna dystiolaeth yn Nodyn 7 i'r cyfrifon.

### Polisi Cronfeydd wrth Gefn

Mae RhCM Cymru yn cydnabod pwysigrwydd cronfeydd wrth gefn ac wedi mabwysiadu polisi cronfeydd wrth gefn i ddarparu sefydlogrwydd ariannol digonol i'r elusen, ynghyd â'r modd iddo fodloni ei amcanion elusennol ar gyfer y dyfodol y gellir ei ragweld.

## STRWYTHUR, LLYWODRAETHU A RHEOLAETH

### Y Ddogfen Lywodraethu

Rheolir yr elusen gan ei dogfen lywodraethu, sef gweithred ymddiriedolaeth, ac mae'n gwmni cyfyngedig trwy warant, fel y'i diffinnir gan Ddeddf Cwmnïau 2006.

## CYFEIRIAD A MANYLION GWEINYDDOL

**Rif Cwmni Cofrestredig:**
07891533 (Cymru a Lloegr)

**Rhif Elusen Gofrestredig:**
1145706

**Swyddfa gofrestredig**
Y Deml Heddwch
Rhodfa'r Brenin Edward VII
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3AP

**Ymddiriedolwyr**
Ruth Fowler (ymddiswyddodd 7.5.22)
Rhian Helen Elizabeth Davies
Alison Williams (ymddiswyddodd 13.6.22)
Lowri Rebecca Walters (ymddiswyddodd 14.7.22)
Tania Silva Marin
Wanjiku Elizabeth Mbugua (ymddiswyddodd 15.6.23)
Mary Ann Shelley Brocklesby, Cynghorydd Tref y Fenni
Linda Suzanne Davies Ms
Rahila Hamid Na
Jennifer Ramsay, Uwch-ymgynghorydd Senedd Cymru

**Archwiliwr Annibynnol**
Bevan Buckland LLP
Llawr Gwaelod Cardigan House
Cwrt y Castell
Parc Menter Abertawe
Abertawe
SA7 9LA

Cymeradwywyd trwy gyfarwyddyd y bwrdd ymddiriedolwyr ar ..........................................................
a llofnodwyd ar ei ran gan:

..................................................................................................................................................................
Mary Ann Shelley Brocklesby - Ymddiriedolwr

# ADRODDIAD YR ARCHWILIWR ANNIBYNNOL I YMDDIRIEDOLWYR RHWYDWAITH CYDRADDOLDEB MENYWOD CYMRU

**Adroddiad yr archwiliwr annibynnol i ymddiriedolwyr Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru ('Y Cwmni')** Adroddaf i ymddiriedolwyr yr elusen ar fy archwiliad o gyfrifon y Cwmni ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 3 Mawrth 2023.

### Cyfrifoldebau a sail yr adroddiad

A chithau'n ymddiriedolwyr yr elusen ar gyfer y Cwmni (a hefyd yn gyfarwyddwyr at ddiben cyfraith cwmnïau), rydych yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 ('Deddf 2006').

Wedi fy modloni fy hun nad yw'n ofynnol i gyfrifon y Cwmni gael eu harolygu'n swyddogol o dan Ran 16 o Ddeddf 2006, a'u bod yn gymwys i gael eu harchwilio'n annibynnol, rwy'n adrodd mewn perthynas â'm harchwiliad o gyfrifon eich elusen, fel y'i cynhaliwyd o dan Adran 145 o Ddeddf Elusennau 2011 ('Deddf 2011'). Wrth gynnal fy archwiliad, rwyf wedi dilyn y Cyfarwyddiadau a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan Adran 145(5) (b) o Ddeddf 2011.

### Datganiad yr archwiliwr annibynnol

Gan fod incwm gros eich elusen yn fwy na £250,000, rhaid i'ch archwiliwr fod yn aelod o gorff rhestredig. Gallaf gadarnhau fy mod i'n gymwysedig i gynnal yr archwiliad am fy mod yn aelod o Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr, sy'n un o'r cyrff rhestredig.

Rwyf wedi cwblhau fy archwiliad. Gallaf gadarnhau na ddaeth unrhyw faterion i'm sylw mewn cysylltiad â'r archwiliad a barodd i mi gredu'r canlynol:

1. nad oedd cofnodion cyfrifyddu wedi cael eu cadw o ran y Cwmni fel sy'n ofynnol dan Adran 386 Deddf 2006
2. nad yw'r cyfrifon yn cyd-fynd â'r cofnodion hynny
3. nad yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â gofynion cyfrifyddu Adran 396 Deddf 2006 ac eithrio unrhyw ofyniad bod y cyfrifon yn rhoi golwg wir a theg nad yw'n fater sy'n cael ei ystyried fel rhan o archwiliad annibynnol;
4. nad yw'r cyfrifon wedi cael eu paratoi yn unol â dulliau ac egwyddorion y Datganiad o Arfer Argymelledig ar gyfer cyfrifyddu ac adrodd gan elusennau (yn berthnasol i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102)).

Nid oes gennyf unrhyw bryderon ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn cysylltiad â'r gwaith o archwilio y dylid tynnu sylw atynt yn yr adroddiad hwn i alluogi unigolion i ddeall y cyfrifon yn briodol.

Alison Vickers
Bevan Buckland LLP, Llawr Gwaelod Cardigan House, Cwrt y Castell,
Parc Menter Abertawe, Abertawe SA7 9LA

 Dyddiad: ...........................................................................................

## DATGANIAD O WEITHGARWCH ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2023

| | Nodiadau | Cronfa anghyfyngedig £ | Cronfeydd cyfyngedig £ | 2023 Cyfanswm y cronfeydd £ | 2022 Cyfanswm y cronfeydd £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **INCWM A GWADDOLION O** | | | | | |
| Rhoddion a chymynroddion | | 4,129 | – | 4,129 | 338 |
| **Gweithgarwch elusennol** | | | | | |
| Gweithgarwch elusennol | | 6,285 | 342,969 | 349,254 | 338,253 |
| **Cyfanswm** | | **10,414** | **342,969** | **353,383** | **338,591** |
| **GWARIANT AR** | | | | | |
| **Gweithgarwch elusennol** | | | | | |
| Gweithgarwch elusennol | | 819 | 429,803 | 430,622 | 243,390 |
| **INCWM/(GWARIANT) NET** | | 9,595 | (86,834) | (77,239) | 95,201 |
| **CYSONI'R CRONFEYDD** | | | | | |
| Cyfanswm y cronfeydd a ddygwyd ymlaen | | 37,351 | 118,436 | 155,787 | 60,586 |
| **CYFANSWM Y CRONFEYDD A GARIWYD YMLAEN** | | **46,946** | **31,602** | **78,548** | **155,787** |

## MANTOLEN 31 MAWRTH 2023

| | Nodiadau | Cronfa anghyfyngedig £ | Cronfeydd cyfyngedig £ | 2023 Cyfanswm y cronfeydd £ | 2022 Cyfanswm y cronfeydd £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **ASEDAU CYFREDOL** | | | | | |
| Dyledwyr | 5 | – | 17,375 | 17,375 | 27,919 |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | | 59,976 | 42,345 | 102,321 | 140,353 |
| | | 59,976 | 59,720 | 119,696 | 168,272 |
| **CREDYDWYR** | | | | | |
| Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn | 6 | (13,030) | (28,118) | (41,148) | (12,485) |
| **ASEDAU CYFREDOL NET** | | 46,946 | 31,602 | 78,548 | 155,787 |
| **CYFANSWM YR ASEDAU LLAI RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL** | | 46,946 | 31,602 | 78,548 | 155,787 |
| **ASEDAU NET** | | 46,946 | 31,602 | 78,548 | 155,787 |
| **CRONFEYDD** | 7 | | | | |
| Cronfeydd anghfyngedig | | | | 46,946 | 37,351 |
| Cronfeydd cyfyngedig | | | | 31,602 | 118,436 |
| **CYFANSWM Y CRONFEYDD** | | | | **78,548** | **155,787** |

Mae gan y cwmni elusennol hawl i gael ei eithrio rhag archwiliad o dan Adran 477 o Ddeddf Cwmnïau 2006 ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023.

Nid yw'r aelodau wedi'i gwneud yn ofynnol i'r cwmni drefnu archwiliad o'i ddatganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, yn unol ag Adran 476 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

Mae'r ymddiriedolwyr yn cydnabod eu cyfrifoldeb am

(a) sicrhau bod y cwmni elusennol yn cadw cofnodion cyfrifyddu sy'n cydymffurfio ag Adrannau 386 a 387 o Ddeddf Cwmnïau 2006 a

(b) paratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r cwmni elusennol fel y mae ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol ac o'i warged neu ei ddiffyg ar gyfer pob blwyddyn ariannol, yn unol â gofynion Adrannau 394 a 395 ac sydd fel arall yn cydymffurfio â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 mewn perthynas â datganiadau ariannol, fel y maent yn berthnasol i'r cwmni elusennol.

Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi yn unol â'r ddarpariaeth sy'n berthnasol i gwmnïau elusennol sy'n ddarostyngedig i'r gyfundrefn cwmnïau bach.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Bwrdd Ymddiriedolwyr a'u hawdurdodi i'w cyhoeddi ar

..........................................................................................................................

ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan:

..........................................................................................................................

Suzy Davies - Ymddiriedolwr

## NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2023

### 1. POLISÏAU CYFRIFYDDU

**Y sail ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol**

Paratowyd datganiadau'r cwmni elusennol, sy'n endid budd cyhoeddus o dan FRS 102, yn unol â'r SORP Elusennau (FRS 102) *Accounting and Reporting by Charities: Statement of Recommended Practice applicable to charities preparing their accounts in accordance with the Financial Reporting Standard applicable in the UK and Republic of Ireland (FRS 102)* (a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2019), Safonau Adrodd Ariannol 102 *The Financial Reporting Standard applicable in the UK and Republic of Ireland*, a Deddf Cwmnïau 2006. Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â chonfensiwn cost hanesyddol.

**Incwm**

Caiff pob incwm ei gydnabod yn y Datganiad o Weithgarwch Ariannol pan fydd gan yr elusen hawl i'r cronfeydd, pan fydd yn debygol y bydd yr incwm yn dod i law, a phan ellir mesur y swm mewn modd dibynadwy.

**Gwariant**

Caiff rhwymedigaethau eu cydnabod yn wariant cyn gynted ag y bydd yna gorfodaeth gyfreithiol neu adeiladol yn bodoli sy'n rhwymo'r elusen i'r gwariant hwnnw, pan fydd yn debygol y bydd yn ofynnol trosglwyddo buddion economaidd yn daliad, a phan ellir mesur swm y goblygiad mewn modd dibynadwy. Gwneir cyfrif am wariant ar sail croniadau, ac fe'i dosberthir o dan benawdau sy'n crynhoi'r holl gostau sy'n berthnasol i'r categori hwnnw. Lle na ellir priodoli costau yn uniongyrchol i benawdau penodol, fe'u dyrennir i weithgarwch ar sail sy'n gyson â'r defnydd a wneir o'r adnoddau.

**Trethiant**

Mae'r elusen wedi'i heithrio rhag treth gorfforaethol ar ei gweithgarwch elusennol.

**Cyfrifyddu cronfeydd**

Gellir defnyddio cronfeydd anghyfyngedig yn unol â'r amcanion elusennol yn ôl disgresiwn yr ymddiriedolwyr.

Dim ond at ddibenion cyfyngedig penodol yn rhan o amcanion yr elusen y gellir defnyddio cronfeydd cyfyngedig. Mae cyfyngiadau'n berthnasol pan gânt eu nodi gan y rhoddwr neu pan gaiff arian ei godi at ddibenion cyfyngedig penodol.

Mae eglurhad pellach o natur a diben pob cronfa wedi'i gynnwys yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol.

**Costau pensiwn a buddion eraill ar ôl ymddeol**

Mae'r cwmni elusennol yn gweithredu cynllun pensiwn â chyfraniadau wedi'u diffinio. Caiff cyfraniadau sy'n daladwy i gynllun pensiwn y cwmni elusennol eu cynnwys yn y Datganiad o Weithgarwch Ariannol yn y cyfnod y maent yn berthnasol iddo.

## 1. POLISÏAU CYFRIFYDDU - parhad

**Dyrannu costau cymorth**
Costau cymorth yw'r swyddogaethau hynny sy'n cynorthwyo gwaith yr elusen ond nad ydynt yn ymgymryd â gweithgarwch elusennol yn uniongyrchol. Mae costau cymorth yn cynnwys costau'r swyddfa gefn, cyllid, personél, y gyflogres, a chostau llywodraethu sy'n cefnogi gweithgarwch yr elusen. Mae'r costau hyn wedi'u dyrannu rhwng y gost o godi arian a gwariant ar weithgarwch elusennol.

**Dyledwyr**
Caiff dyledwyr masnach a dyledwyr eraill eu cydnabod yn ôl swm y setliad sy'n ddyledus yn dilyn unrhyw ddisgownt masnach a gynigir. Caiff rhagdaliadau eu prisio yn ôl y swm net a ragdalwyd ar ôl tynnu unrhyw ddisgowntiau masnach sy'n ddyledus.

**Arian yn y banc ac mewn llaw**
Mae'r arian yn y banc a'r arian mewn llaw yn cynnwys arian parod a buddsoddiadau byrdymor, hylifol iawn, sydd â chyfnod aeddfedu o dri mis neu lai o'r dyddiad prynu neu o'r dyddiad yr agorwyd y cyfrif adneuo neu gyfrif tebyg.

**Credydwyr a darpariaethau**
Caiff credydwyr a darpariaethau eu cydnabod pan fydd gan yr elusen rwymedigaeth bresennol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol a fydd, yn fwyaf tebygol, yn arwain at drosglwyddo arian i drydydd parti, a phan ellir mesur neu amcangyfrif y swm sy'n ddyledus i dalu'r rhwymedigaeth mewn modd dibynadwy. Caiff credydwyr a darpariaethau eu cydnabod fel arfer yn unol â swm eu setliad ar ôl caniatáu ar gyfer unrhyw ddisgowntiau masnach sy'n ddyledus.

**Offerynnau ariannol**
Mae gan yr elusen asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol o'r math a ddisgrifir yn offerynnau ariannol sylfaenol yn unig. Caiff offerynnau ariannol sylfaenol eu cydnabod yn ôl gwerth y trafodiad i gychwyn, ac wedi hynny cânt eu mesur yn ôl gwerth eu setliad, ac eithrio benthyciadau gan fanc a gaiff eu mesur wedyn yn ôl y gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol.

**Buddion Cyflogeion**
Caiff cost unrhyw hawl i wyliau nas defnyddiwyd ei chydnabod yn y cyfnod y cafwyd gwasanaethau'r cyflogai.

**Statws cyfreithiol yr Elusen**
Mae'r elusen yn gwmni cyfyngedig trwy warant ac nid oes ganddi gyfalaf cyfranddaliadau. Os bydd yr elusen yn cael ei dirwyn i ben, mae'r rhwymedigaeth mewn perthynas â'r warant yn gyfyngedig i £1 fesul aelod o'r elusen.

**Asedau Diriaethol**
Ein polisi yw y bydd unrhyw gostau cyfalaf sy'n llai na'r swm o £500 yn cael eu cynnwys yn y Datganiad o Weithgarwch Ariannol.

## 2. CYDNABYDDIAETH ARIANNOL A BUDDION YR YMDDIRIEDOLWYR

Nid oedd unrhyw gydnabyddiaeth ariannol na buddion yn berthnasol i'r ymddiriedolwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022.

**Treuliau'r ymddiriedolwyr**

Ni thalwyd unrhyw dreuliau i'r ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 nac yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022.

## 3. COSTAU STAFFIO

Roedd nifer cyfartalog y cyflogeion bob mis yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | **2023** | **2022** |
|---|---|---|
| Rheolwyr | 2 | 2 |
| Gwasanaethau Uniongyrchol | 5 | 4 |
| Gweinyddol | 1 | 1 |
| **Cyfanswm** | 8 | 7 |

Ni chafod unrhyw gyflogeion enillion a oedd yn fwy na £60,000.

Cafodd Personél Rheoli Allweddol yr Elusen gydnabyddiaeth ariannol o £49,615 (2022: £50,163). Mae hyn yn  cynnwys y cyflog gros a dalwyd, cyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr, a chyfraniadau pensiwn y cyflogwr.

## 4. MESURAU CYMHAROL AR GYFER Y DATGANIAD O WEITHGARWCH ARIANNOL

| | Cronfa anghyfyngedig £ | Cronfeydd cyfyngedig £ | Cyfanswm y cronfeydd £ |
|---|---|---|---|
| **INCWM A GWADDOLION O** | | | |
| Rhoddion a chymynroddion | 338 | – | 338 |
| **Gweithgarwch elusennol** | | | |
| Gweithgarwch elusennol | 950 | 337,303 | 338,253 |
| **Cyfanswm** | **1,288** | **337,303** | **338,591** |
| **GWARIANT AR** | | | |
| **Gweithgarwch elusennol** | | | |
| Gweithgarwch elusennol | 251 | 243,139 | 243,390 |
| **INCWM NET** | 1,037 | 94,164 | 95,201 |
| **CYSONI'R CRONFEYDD** | | | |
| Cyfanswm y cronfeydd a ddygwyd ymlaen | 36,314 | 24,272 | 60,586 |
| **CYFANSWM Y CRONFEYDD A GARIWYD YMLAEN** | **37,351** | **118,436** | **155,787** |

## 5. DYLEDWYR: SYMIAU SY'N DOD YN DDYLEDUS O FEWN BLWYDDYN

| | **2023** £ | **2022** £ |
|---|---|---|
| Dyledwyr masnach | 17,375 | 22,031 |
| Rhagdaliadau | – | 5,888 |
| **Cyfanswm** | **17,375** | **27,919** |

## 6. CREDYDWYR: SYMIAU SY'N DOD YN DDYLEDUS O FEWN BLWYDDYN

| | **2023** £ | **2022** £ |
|---|---|---|
| Credydwyr masnach | 4,128 | 1,134 |
| Nawdd cymdeithasol a threthi eraill | 5,397 | 7,136 |
| Credydwyr eraill | 1,441 | 2,337 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 7,000 | 1,878 |
| Treuliau cronnus | 23,182 | – |
| **Cyfanswm** | **41,148** | **12,485** |

## 7. SYMUDIAD YN Y CRONFEYDD

| | Ar 1.4.22 | Symudiad net yn y cronfeydd | Ar 31.3.23 |
|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ |
| **Cronfeydd anghfyngedig** | | | |
| Cronfa gyffredinol | 37,351 | 9,595 | 46,946 |
| **Cronfeydd cyfyngedig** | | | |
| CGGC – Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector | 2,675 | 362 | 3,037 |
| Y Loteri Fawr | 44,848 | (41,805) | 3,043 |
| 100 o Fenywod Cymru | 2,461 | (1,365) | 1,096 |
| EYST Cymru | 5,000 | 5,000 | 10,000 |
| Ymgyrch codi arian CGGC | 37,261 | (27,048) | 10,213 |
| ERS Cymru | 5,000 | (2,944) | 2,056 |
| Mentora LlC | 2,270 | (2,270) | – |
| JRRT | 18,921 | (16,764) | 2,157 |
| | 118,436 | (86,834) | 31,602 |
| **CYFANSWM Y CRONFEYDD** | **155,787** | **(77,239)** | **78,548** |

Mae'r symudiad net yn y cronfeydd, sydd wedi'i gynnwys uchod, fel a ganlyn:

| | Adnoddau a ddaeth i mewn | Adnoddau a ddefnyddiwyd | Symudiad yn y cronfeydd |
|---|---|---|---|
| **Cronfeydd anghfyngedig** | £ | £ | £ |
| Cronfa gyffredinol | 10,414 | (819) | 9,595 |
| **Cronfeydd cyfyngedig** | | | |
| Grant Llywodraeth Cymru | 120,000 | (120,000) | – |
| CGGC – Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector | 3,501 | (3,139) | 362 |
| Y Loteri Fawr | 140,601 | (182,406) | (41,805) |
| 100 o Fenywod Cymru | – | (1,365) | (1,365) |
| Oxfam | 8,000 | ((8,000) | – |
| EYST Cymru | 5,000 | – | 5,000 |
| Ymgyrch codi arian CGGC | 12,492 | (39,540) | (27,048) |
| ERS Cymru | – | (2,944) | (2,944) |
| Mentora LlC | 41,000 | (43,270) | (2,270) |
| JRRT | – | (16,764) | (16,764) |
| LlC - Rydym yn Perthyn Yma | 12,375 | (12,375) | – |
| | 342,969 | (429,803) | (86,834) |
| **CYFANSWM Y CRONFEYDD** | **353,383** | **(430,622)** | **(77,239)** |

## 7. SYMUDIAD YN Y CRONFEYDD – PARHAD

**Mesurau cymharol ar gyfer y symudiad yn y cronfeydd**

| | Ar 1.4.21<br>£ | Symudiad net yn y cronfeydd<br>£ | Ar 31.3.22<br>£ |
|---|---|---|---|
| **Cronfeydd anghfyngedig** | | | |
| Cronfa gyffredinol | 36,314 | 1,037 | 37,351 |
| **Cronfeydd cyfyngedig** | | | |
| Grant Llywodraeth Cymru | 6,954 | (6,954) | – |
| CGGC – Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector | 10,732 | (8,057) | 2,675 |
| Y Loteri Fawr | – | 44,848 | 44,848 |
| 100 o Fenywod Cymru | 2,461 | – | 2,461 |
| Fawcett | 875 | (875) | – |
| Waterloo | 2,000 | (2,000) | – |
| Women's Budget Group | 1,250 | (1,250) | – |
| EYST Cymru | – | 5,000 | 5,000 |
| Ymgyrch codi arian CGGC | – | 37,261 | 37,261 |
| ERS Cymru | – | 5,000 | 5,000 |
| Mentora LlC | – | 2,270 | 2,270 |
| JRRT | – | 18,921 | 18,921 |
| | 24,272 | 94,164 | 118,436 |
| **CYFANSWM Y CRONFEYDD** | **60,586** | **95,201** | **155,787** |

Mae'r symudiad net cymharol yn y cronfeydd, sydd wedi'i gynnwys uchod, fel a ganlyn:

| | Adnoddau a ddaeth i mewn<br>£ | Adnoddau a ddefnyddiwyd<br>£ | Symudiad yn y cronfeydd<br>£ |
|---|---|---|---|
| **Cronfeydd anghfyngedig** | | | |
| Cronfa gyffredinol | 1,288 | (251) | 1,037 |
| **Cronfeydd cyfyngedig** | | | |
| Grant Llywodraeth Cymru | 120,105 | (127,059) | (6,954) |
| CGGC – Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector | 3,501 | (11,558) | (8,057) |
| Y Loteri Fawr | 107,034 | (62,186) | 44,848 |
| Fawcett | – | (875) | (875) |
| Waterloo | – | (2,000) | (2,000) |
| Women's Budget Group | 5,000 | (6,250) | (1,250) |
| EYST Cymru | 5,000 | – | 5,000 |
| Ymgyrch codi arian CGGC | 37,477 | (216) | 37,261 |
| ERS Cymru | 5,000 | – | 5,000 |
| Mentora LlC | 24,436 | (22,166) | 2,270 |
| JRRT | 29,750 | (10,829) | 18,921 |
| | 337,303 | (243,139) | 94,164 |
| **CYFANSWM Y CRONFEYDD** | **338,591** | **(243,390)** | **95,201** |

## 7. SYMUDIAD YN Y CRONFEYDD – parhad

Mae sefyllfa gyfunol 12 mis y flwyddyn gyfredol a 12 mis y flwyddyn flaenorol fel a ganlyn:

| | Ar 1.4.21 | Symudiad net yn y cronfeydd | Ar 31.3.23 |
|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ |
| **Cronfeydd anghfyngedig** | | | |
| Cronfa gyffredinol | 36,314 | 10,632 | 46,946 |
| | | | |
| **Cronfeydd cyfyngedig** | | | |
| Grant Llywodraeth Cymru | 6,954 | (6,954) | – |
| CGGC – Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector | 10,732 | (7,695) | 3,037 |
| Y Loteri Fawr | – | 3,043 | 3,043 |
| 100 o Fenywod Cymru | 2,461 | (1,365) | 1,096 |
| Fawcett | 875 | (875) | – |
| Waterloo | 2,000 | (2,000) | – |
| Women's Budget Group | 1,250 | (1,250) | – |
| EYST Cymru | – | 10,000 | 10,000 |
| Ymgyrch codi arian CGGC | – | 10,213 | 10,213 |
| ERS Cymru | – | 2,056 | 2,056 |
| JRRT | – | 2,157 | 2,157 |
| | 24,272 | 7,330 | 31,602 |
| **CYFANSWM Y CRONFEYDD** | **60,586** | **17,962** | **78,548** |

## 7. SYMUDIAD YN Y CRONFEYDD – parhad

Mae'r sefyllfa gyfunol ar gyfer 12 mis y flwyddyn gyfredol a 12 mis y flwyddyn flaenorol, sydd wedi'u cynnwys uchod, fel a ganlyn:

| | Adnoddau a ddaeth i mewn £ | Adnoddau a ddefnyddiwyd £ | Symudiad yn y cronfeydd £ |
|---|---|---|---|
| **Cronfeydd anghfyngedig** | | | |
| Cronfa gyffredinol | 11,702 | (1,070) | 10,632 |
| | | | |
| **Cronfeydd cyfyngedig** | | | |
| Grant Llywodraeth Cymru | 240,105 | (247,059) | (6,954) |
| CGGC – Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector | 7,002 | (14,697) | (7,695) |
| Y Loteri Fawr | 247,635 | (244,592) | 3,043 |
| 100 o Fenywod Cymru | – | (1,365) | (1,365) |
| Oxfam | 8,000 | (8,000) | – |
| Fawcett | – | (875) | (875) |
| Waterloo | – | (2,000) | (2,000) |
| Women's Budget Group | 5,000 | (6,250) | (1,250) |
| EYST Cymru | 10,000 | – | 10,000 |
| Ymgyrch codi arian CGGC | 49,969 | (39,756) | 10,213 |
| ERS Cymru | 5,000 | (2,944) | 2,056 |
| Mentora LlC | 65,436 | (65,436) | – |
| JRRT | 29,750 | (27,593) | 2,157 |
| LIC - Rydym yn Perthyn Yma | 12,375 | (12,375) | – |
| | 680,272 | (672,942) | 7,330 |
| **CYFANSWM Y CRONFEYDD** | **691,974** | **(674,012)** | **17,962** |

## 8. DATGELIADAU PARTÏON PERTHYNOL

Nid oedd yna unrhyw trafodiadau trydydd parti perthynol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023.


## DATGANIAD MANWL O WEITHGARWCH ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2023

| | 2023 | 2022 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| **INCWM A GWADDOLION** | | |
| **Rhoddion a chymynroddion** | | |
| Rhoddion | 4,129 | 338 |
| **Gweithgarwch elusennol** | | |
| Grantiau | 343,969 | 338,253 |
| Refeniw Arall | 5,285 | – |
| | 349,254 | 338,253 |
| **CYFANSWM YR ADNODDAU A DDAETH I MEWN** | **353,383** | **338,591** |
| **GWARIANT** | | |
| **Gweithgarwch elusennol** | | |
| Cyflogau | 209,716 | 141,501 |
| Nawdd cymdeithasol | 14,875 | 8,379 |
| Pensiynau | 10,486 | 6,986 |
| Yswiriant | 254 | 105 |
| Cyfathrebu a'r Rhyngrwyd | 4,460 | 4,976 |
| Dylunio, cyhoeddiadau a marchnata | 2,562 | 6,455 |
| Teithio a chynhaliaeth | 16,933 | 4,056 |
| Ffioedd aelodaeth a chofrestru | 1,242 | 852 |
| Ffioedd ymgynghori | 4,950 | 1,380 |
| Digwyddiadau ac adnoddau | 21,923 | 7,879 |
| Cyfarpar TG | 5,348 | 6,149 |
| Costau cyfieithu | 3,157 | 2,058 |
| Costau hyfforddi | 3,881 | 2,112 |
| Costau'r tir ac adeiladau | 6,190 | 862 |
| Gorbenion y Swyddfa | 6,223 | 6,072 |
| Polisi ac Ymchwil | 7,383 | 3,294 |
| Gwerthuso | 1,708 | 1,020 |
| Mentora | – | 350 |
| Taliadau i bartneriaid PCLlC | 106,938 | 36,184 |
| Costau'r banc | 115 | 97 |
| | **428,344** | **240,767** |
| **Costau cymorth** | | |
| Ffioedd cyfrifyddiaeth a ffioedd cyfreithiol | 2,278 | 2,623 |
| Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd | 430,622 | 243,390 |
| **(GWARIANT)/INCWM NET** | **(77,239)** | **95,201** |




Nid yw'r dudalen hon yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol statudol

## INCWM



| | |
|---|---|
| Arian cyffredinol | 2% |
| Llywodraeth Cymru | 34% |
| CGGC | 1% |
| Loteri Fawr | 40% |
| Oxfam | 2% |
| Eyst | 1% |
| Codwr arian CGGC | 4% |
| LlC Mentora | 12% |
| LlC Lle i Ni | 4% |

## GWARIANT



| | |
|---|---|
| Cyflogau a Phensiwn | 55% |
| Costau Swyddfa | 6% |
| Digwyddiadau a Chyhoeddiadau | 7% |
| Treuliau Staff ac Ymddiriedolwyr | 4% |
| Polisi ac Aelodaeth | 2% |
| Ffioedd Cyfrifyddu | 1% |
| Taliadau partneriaid PCLLC (EPEV) | 25% |